

Gwasanaeth Seicoleg Addysgol
Gwasanaeth Integredig ADYaCH

Pencadlys Cyngor Gwynedd

Stryd y Jel

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

☎ (01286) 679007

✉ FfionEdwardsEllis@gwynedd.llyw.cymru

Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Gwybodaeth i Rieni, staff Ysgolion,
Gweithwyr Proffesiynol



Beth mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag ato?

- Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer unigolion rhwng 0 a 19 oed.
- Darparu Gwasanaeth sydd o safon uchel ac yn cyd-fynd gyda safonau Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- Gweithio mewn modd strategol effeithiol i hybu datblygiad ysgol gyfan yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu.

Sut mae cael mynediad at y Gwasanaeth?

- Mae gan bob ysgol Seicolegydd Addysgol Cyswllt, sydd yn gweithredu ar lefel dalgylch ysgol uwchradd. Mae'r Ysgol yn blaenoriaethu gwaith am y ar y cyd gyda'r Seicolegydd dwy waith y flwyddyn.
- Mae'r Seicolegwyr Addysgol yn gweithio yn agos gyda staff o fewn Ysgolion, yn enwedig y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynnwysiad.
- Os ydych yn riant sydd yn bryderus am eich plentyn rydym yn awgrymu i chi drafod gyda'r Cydlynnydd ADY a Ch yn yr Ysgol er mwyn trafod ymhellach yn y lle cyntaf.
- Mae'r y gwaith mae'r Seicolegydd yn ei wneud yn cael ei gynllunio yn ofalus ar ddechrau tymor ysgol ar lefel dalgylchol er mwyn sicrhau fod y mewnbwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen ac yn unol â'r Meini Prawf.
- Mae'r Seicolegwyr Addysgol yn gweithio yn agos iawn gyda'r Timau eraill o fewn y Gwasanaeth Integredig ADYaCh ar lefel gweithredol a strategol.

Beth mae'r Gwasanaeth yn ei gynnig?

- **Hyfforddiant mewn swydd ar ystod o bynciau:**
Er Enghraifft...Meddylfryd twf, Ymwybyddiaeth Ofalgar, Gorbryder, Dulliau Ysgol Gyfan a mwy penodol ar gyfer ADY Penodol/Dyslecsia, Ymlyniad a Trawma Datblygiadol, Anhawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio.
- **Ymyraethau Grwp/unigol therapiwtig**
- **Cynnal prosiectau ymchwil**
- **Ymgynghori ar lefel disgybl unigol (gan gynnwys asesiadau pellach o anghenion ble yn briodol)**
 - Proses ataliol sydd yn:
 - Sicrhau fod y person ifanc yn ganolog ac yn gallu cyfrannu i'r broses.
 - Trafodaeth gyda'r tîm o amgylch y plentyn (h.y. trafodaeth rhiant, ysgol, asiantaethau eraill) er mwyn cael darlun cyflawn o ddatblygiad y plentyn.
 - Trafodaeth am beth sydd yn gweithio a ddim yn gweithio yn y sefyllfa, gan weithio tuag at ddatrysiaid.
- **Defnydd o ddulliau Cynllunio sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn**
- **Goruchwyliaeth/sesiynau trafod ar gyfer staff**